Cyngor Sir Caerfyrddin

Deddf yr Amgylchedd 1995

Rheoli Ansawdd Aer

2017 Adroddiad Cynllun Gweithredu Drafft Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin a Llanelli

(Gorffennaf 2017)

Grŵp Cynllun Gweithredu

Cynnwys

Tudalen

1.0 Pwrpas yr Adroddiad 3
2.0 Grŵp Cynllun Gweithredu 4
2.1 Allbynnau'r Grŵp Cynllun Gweithredu 4
3.0 Datblygu Cynllun Gweithredu Drafft 6
3.1 Lleihau NO_2 6
3.2 Ardaloedd Pryder 6
4.0 Cynigion Cychwynnol y Cynllun Gweithredu Drafft 11
5.0 Adolygu a Monitro 18
5.1 Adolygu 18
5.2 Monitro 18

Tabl 1 – Cynigion Cychwynnol Cynllun Gweithredu Drafft Caerfyrddin 11
Tabl 2 – Cynigion Cychwynnol Cynllun Gweithredu Drafft Llanelli 12
Tabl 3 – Cynigion Drafft Generig Gwella Ansawdd Aer 14

Ffigur 1a – Ardal Gormodiant ARhAA Caerfyrddin (Dwyrain) 7
Ffigur 1b – Ardal Gormodiant ARhAA Caerfyrddin (Gorllewin) 8
Ffigur 2 – Ardal Gormodiant ARhAA Llanelli 10

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar waith y Grŵp Cynllun Gweithredu yn llunio'r rhestr gychwynnol o ymyriadau posib ar gyfer ceisio gwella ansawdd yr aer o fewn yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) ar gyfer trefi Caerfyrddin a Llanelli yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at ofynion proses Rheoli Ansawdd Aer Lleol (RhAALl) a amlinellir yn Rhan IV Deddf yr Amgylchedd (1995), Strategaeth Ansawdd Aer Cymru 2007 a'r dogfennau Polisi a Chanllawiau Technegol a gyhoeddwyd gan Defra a Llywodraeth Cymru. Dylid nodi y rhoddodd y gwaith hwn sylw dyladwy i'r Polisi a'r diweddariadau canllaw (2017) diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r angen i leihau llygredd aer yn gyffredinol yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar geisio cyflawni'r Amcan Ansawdd Aer (AAA) mewn ardaloedd â phroblem yn unig.

Arweiniodd torri parhaus ar yr AAA ar gyfer nitrogen deuocsid (NO_2) yn nhrefi Caerfyrddin a Llanelli at gynnal Asesiadau Manwl (AM) yn ystod 2012 a fethodd yn anffodus â dynodi hyd a lled yr ardaloedd gormodiant. Felly, cynhaliwyd AM diwygiedig yn 2013 ac AM Estynedig i ddilyn a roddodd arwydd clir o'r ardaloedd problem a'r effeithiau ar yr ardaloedd hynny. Cadarnhaodd canlyniadau'r monitro helaeth yr angen i ddynodi ARhAAoedd yn y ddwy dref. Wedi ymgynghori'n eang, a chael cymeradwyaeth y Cyngor llawn, llofnodwyd a chyhoeddwyd y Gorchmynion ar gyfer yr ARhAAoedd ar yr 2il Awst 2016.

Byddai'r profiad a gawsom o'r gwaith oedd ynghlwm wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Llandeilo yn cael ei ddefnyddio wrth ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Caerfyrddin a Llanelli. Defnyddiwyd y gwaith blaenorol a wnaed hyd yn hyn ac a adroddwyd i Lywodraeth Cymru mewn Adroddiadau Cynnydd ac Asesiadau Diweddaru a Sgrinio ar gyfer llunio sylfaen y Cynlluniau Gweithredu Drafft. Unwaith y maent yn barod, cyflwynir y Cynlluniau Gweithredu i Lywodraeth Cymru i'w cadarnhau.

2.0 Grŵp Cynllun Gweithredu

Caiff y gwaith ar ansawdd aer ei adrodd yn rheolaidd i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd ac yn ei dro i Fwrdd Gweithredol y Cyngor. Cadarnhawyd y penderfyniad i ddynodi'r ARhAAoedd ar gyfer Caerfyrddin a Llanelli gan y Cyngor llawn.

Roedd Grŵp Cynllun Gweithredu Llandeilo yn bodoli'n barod, ond ni fu angen i'r Grŵp Llywio gyfarfod ers sawl blwyddyn. Wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Llandeilo gwelwyd fod gwaith y ddau Grŵp yn gorgyffwrdd ac yn arwain at ddyblygu gwaith. Ar sail y profiad hwn, penderfynwyd y byddai peidio cael Grŵp Llywio yn arbed adnoddau. Rhoddwyd ystyriaeth i'r angen posib am dri Grŵp Cynllun Gweithredu, un yr un ar gyfer pob ARhAA. Fodd bynnag, yr un aelodau i bob pwrpas fyddai ar bob un o'r Grwpiau ac roedd ffynhonnell y llygredd ar gyfer y tri yn gysylltiedig â thraffig. Felly, er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau penderfynwyd cael un Grŵp Cynllun Gweithredu fyddai'n edrych ar waith ar gyfer y tair ARhAA.

Gan fod natur y tair ARhAA ychydig yn wahanol derbyniwyd efallai y byddai angen i aelodaeth y Grŵp gynnwys partneriaid eraill gan ddibynnu ar y Cynllun Gweithredu ymhob tref, a chytunwyd felly y gellid ystyried cyfethol aelodau ac y gellid gwneud hynny yn ôl y galw.

2.1 Allbynnau'r Grŵp Cynllunio Gweithredu

Prif ffrwd waith y Grŵp CG yw adolygu ymyriadau'r Cynllun Gweithredu a gwerthuso dewisiadau yng Ngham 1 Cynllun Gweithredu Llandeilo ac adrodd ar y gwaith hwnnw, ynghyd â chreu cymaint o ddewisiadau ag y bo modd ar gyfer ymyriadau posib yn nhrefi Caerfyrddin a Llanelli. Mae 'natur' y tair tref yn wahanol iawn, sy'n golygu fod achosion a lleoliadau'r problemau ansawdd aer yn dra gwahanol (ac eithrio'r ffaith waelodol fod y broblem ansawdd aer yn gysylltiedig i raddau helaeth â llygredd traffig). Er y cafodd materion lleol penodol eu hadnabod, megis dilyniannu goleuadau traffig a'r ffaith fod gyrwyr yn tueddu defnyddio rhai llwybrau penodol, roedd yn ymddangos hefyd fod

rhai dewisiadau yn berthnasol i'r ddwy dref. Arweiniodd hynny at ddatblygu tair rhestr, un ar gyfer pob tref ynghyd â rhestr enerig y gellid ei defnyddio yn unrhyw le.

Ar gyfer gwaith Cynllun Gweithredu Llandeilo cynhaliodd y Grŵp ymarfer sgrinio oedd i bob pwrpas yn diystyru rhai dewisiadau cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Wrth edrych yn ôl, gellid honni nad oedd hynny'n dryloyw a'i fod efallai'n diystyru rhai dewisiadau oherwydd 'agenda cudd'. Penderfynwyd felly mai doeth fyddai cynnal y broses sgrinio ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus a chyn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu yn ffurfiol. Y bwriad yw cychwyn yr ymarferiad ymgynghori cyhoeddus ym mis Awst 2017.

3.0 Datblygu Cynllun Gweithredu Drafft

Cyfarfu'r Grŵp Cynllun Gweithredu a thrafod y materion ar gyfer y naill dref a'r llall o safbwyntiau amrywiol. Arweiniodd y trafodaethau at awgrymiadau a chynigion ar gyfer ymyriadau posib. Arweiniodd y trafodaethau hefyd at rai ymholiadau a chwestiynau nad oedd atebion iddynt ar y pryd, rhai'n ymwneud â datblygiadau posib yn y trefi, a gafodd wedyn eu cynnwys mewn ymyriadau posib.

3.1 Lleihau NO_2

Yn hanesyddol, bu'n rhaid adnabod y lleihad sydd ei angen yn NO_2 er mwyn cyflawni'r lefel wrthrychol o 40 $\mu g/m^3$, yn gymedr blynyddol. Fodd bynnag, mae'r canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn mynd ymhellach, gan fynnu ein bod yn ceisio lleihau lefelau llygredd lle bynnag y bo modd (ac nid o fewn ARhAAoedd dynodedig yn unig). Yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar gyflawni'r Amcan Ansawdd Aer, dylid defnyddio'r gwaith ar briodoli ffynonellau wrth gynllunio ymyriadau posib all arwain at welliannau ar draws yr ARhAAoedd a thu hwnt. Ystyr priodoli ffynonellau yw bod cyfraniad pob ffynhonnell llygredd (e.e. dosbarth cerbyd) yn cael ei amcangyfrif. Cafodd cyfrifiadau traffig eu trefnu, a bydd hyn yn helpu gyda'r gwaith priodoli ffynonellau, a bydd canlyniadau'r gwaith hwnnw'n cyfrannu at asesu ymyriadau arfaethedig.

3.2 Ardaloedd Pryder

Fel yn Llandeilo, mae map ffiniau ar gyfer Caerfyrddin a Llanelli yn cwmpasu ardal llawer ehangach na'r ardal gormodiant ei hun. Y rheswm am hynny yw efallai mai'r cyfan y bydd unrhyw ymyriadau sy'n ceisio gwella'r ardal gormodiant yn ei wneud yw symud y broblem, neu fod y ffordd o wneud unrhyw welliant yn galw am weithredu dros ardal llawer ehangach na'r ardal gormodiant ei hun.

Mae Ffigyrau 1a, 1b a 2 isod yn dangos (mewn arlliw glas) yr union ardaloedd gormodiant ar gyfer y ddwy dref.

Ffigur 1a – Ardal Gormodiant ARhAA Caerfyrddin (Dwyrain)

Ffigur 1b – Ardal Gormodiant ARhAA Caerfyrddin (Gorllewin)



Mae'r ardaloedd â phroblem a ddangosir gan y darnau arlliw glas ar y mapiau yn Ffigyrau 1a ac 1b uchod yn ardaloedd daearyddol bychain ag iddynt wahanol gyfyngiadau (megis palmentydd cul ac adeiladau'n agos at y briffordd) sy'n cyfyngu'n fawr ar unrhyw ymyriadau arwyddocaol fyddai'n cyfrannu at sicrhau lleihad o'r maint sydd ei angen yn NO_2. Mae'r ddau ddarn o ffordd yn raddiannau a chanddynt gylchfannau ar eu darnau gwaelod a chroesfannau cerddwyr ym mhen uchaf y darn o ffordd. Byddai defnyddio llwybrau amgen ar gyfer nifer o'r teithiau a wneir ar hyd y darnau ffordd hyn yn helpu gwella'r sefyllfa.

Mae'r ardal â phroblem a ddangosir gan y darnau arlliw glas ar y map yn Ffigur 2 yn cynnwys gwaelod Heol Felinfoel yn cyfarfod Stryd Thomas a'r gyffordd yn Gelli Onn. Mae hon yn ardal ddaearyddol fechan ag iddi wahanol gyfyngiadau (megis palmentydd cul ac adeiladau'n agos at y briffordd) ac mae hefyd yn brif gyffordd croestoriad ar gyfer llwybrau sy'n croesi'r dref o'r dwyrain i'r gorllewin ac o'r gogledd i'r de. Byddai defnyddio llwybrau amgen ar gyfer nifer o'r teithiau a wneir ar hyd y darnau ffordd hyn yn helpu gwella'r sefyllfa, ynghyd â'r posibilrwydd o newid dilyniant y goleuadau traffig.

Ffigur 2 – Ardal Gormodiant ARhAA Llanelli



4.0 Cynigion Cychwynnol Drafft y Cynllun Gweithredu

Dangosir Cynigion Cychwynnol Drafft y Cynllun Gweithredu ar gyfer trefi Caerfyrddin a Llanelli isod yn Nhablau 1 a 2. Mae Tabl 3 yn rhestru cynigion posib y gellid eu defnyddio ar gyfer y trefi ond hefyd ar gyfer ardaloedd eraill yn y sir lle y gellid barnu y gellid gwella ansawdd yr aer.

Tabl 1 – Cynigion Cychwynnol Cynllun Gweithredu Drafft Caerfyrddin

Rhif Cynnig	Disgrifiad o'r Cynnig	Lleihad Disgwyliedig yn NO_2 ($\mu g/m^3$)	Amcangyfrif Cost	Arweinydd	Effeithiau Dilynol
C1	Gwella llwybrau seiclo yn y dref a'r cylch.				
C2	Defnyddio adnoddau cyfryngau i roi cyhoeddusrwydd i ddefnyddio ffordd osgoi Caerfyrddin i leihau lefelau traffig sy'n teithio trwy'r dref yn ddiangen.				
C3	Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol a phartneriaid eraill i asesu materion parcio ceir yn Ysbyty Glangwili.				
C4	Ystyried defnyddio arwyddion i atgoffa gyrwyr eu bod yn mynd i mewn i'r ARhAA (ac awgrymu llwybrau amgen efallai).				
C5	Asesu effeithiau cadarnhaol / negyddol Ffordd Gyswllt y Gorllewin unwaith y caiff ei hagor.				
C6	Adolygu'r gwasanaeth Parcio a Theithio				

	ar gyfer y dref. Gweithio gyda phartneriaid i asesu'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaeth ar y cyd ar gyfer mwy nac un safle.				
C7	Asesu effaith cyflwyno cyfyngiad cyflymdra 20mya yn y dref (mwy o ddefnydd o ffordd osgoi, gwella diogelwch ffordd, llai o dagfeydd, annog cerdded, gwella iechyd)				
C8	Darparu mwy o gefnogaeth i rannu ceir / meysydd parcio pwrpasol (gan gynnwys archfarchnadoedd efallai)				
C9	Lleddfu tagfeydd traffig ar Heol Llansteffan / Tre Ioan trwy gynllun pont.				

Tabl 2 – Cynigion Cychwynnol Cynllun Gweithredu Drafft Llanelli

Rhif Cynnig	Disgrifiad o'r Cynnig	Lleihad Disgwyliedig yn NO_2 ($\mu g/m^3$)	Amcangyfrif Cost	Arweinydd	Effeithiau Dilynol
L1	Asesu dilyniant goleuadau traffig ar gyfer cyffordd Stryd Thomas / Gelli Onn.				
L2	Ystyried arolwg traffig ar gyfer Llangennech / Dafen / Stryd Thomas i gael gwybod pam				

	mae'r llwybr hwnnw'n cael ei ddefnyddio.				
L3	Ystyried defnyddio arwyddion i atgoffa gyrwyr eu bod yn mynd i mewn i'r ARhAA (ac awgrymu llwybrau amgen efallai).				
L4	Defnyddio adnoddau cyfryngau i roi cyhoeddusrwydd i ddefnyddio ffordd yr Arfordir i leihau lefelau traffig sy'n teithio trwy'r dref yn ddiangen.				
L5	Asesu effaith cyflwyno cyfyngiad cyflymdra 20mya yn y dref (mwy o ddefnydd o ffordd osgoi, gwella diogelwch ffordd, llai o dagfeydd, annog cerdded, gwella iechyd)				
L6	Adolygu'r gwasanaeth Parcio a Theithio ar gyfer y dref. Gweithio gyda phartneriaid i asesu'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaeth ar y cyd ar gyfer mwy nac un safle.				
L7	Asesu'r potensial o ail-agor Stryd y Bont.				

L8	Asesu'r potensial o greu ffordd osgoi ar gyfer Heol Sandy.				
L9	Asesu cysylltedd y llwybr cerdded / llwybr seiclo ar gyfer ardal Heol Sandy.				
L10	Asesu unrhyw effeithiau / cyfleoedd o ddatblygiad Coleg y Graig.				
L11	Asesu unrhyw gyfleoedd o ddatblygu'r Pentref Llesiant (e.e. pwyntiau gwefru cerbydau trydan ac ati)				
L12	Asesu effaith bosib datblygu Parc Howard.				
L13	Asesu effaith cau'r gyffordd troi o Heol Felinfoel i Heol Hen.				
L14	Adolygu ac asesu amserau cyflenwi HGV i fusnesau yn ardal canol y dref.				

Tabl 3 – Cynigion Drafft Generig Gwella Ansawdd Aer

Rhif Cynnig	Disgrifiad o'r Cynnig	Lleihad Disgwyliedig yn NO_2 ($\mu g/m^3$)	Amcangyfrif Cost	Arweinydd	Effeithiau Dilynol
A	Ystyried goblygiadau cyflwyno Parthau Allyriadau Isel.				
B	Ystyried goblygiadau cyflwyno				

	Parthau Tagfeydd.				
C	Ystyried goblygiadau cyflwyno Gwahardd Tacsis yn Aros.				
D	Ystyried goblygiadau cyflwyno Gwahardd Aros y tu allan i ysgolion ac ati.				
E	Datblygu Canllawiau Cynllunio Atodol (e.e. darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan (– pa feini prawf?).				
F	Gweithio gyda darparwyr SAT NAV i dynnu sylw at ARhAAoedd (trwy Fforwm Ansawdd Aer Cymru efallai).				
G	Sefydlu system negeseuon sy'n rhoi gwybod y gall gwaith ffordd gynyddu lefelau llygredd am gyfnodau byrion.				
H	Cyflwyno camerâu cyflymdra ffug i helpu arafu traffig.				
I	Ystyried llwybrau cerdded rhannu defnydd.				

J	Hysbysebu llwybrau seiclo.				
K	Hysbysebu swyddfeydd sy'n cynnwys cyfleusterau ar gyfer beicwyr.				
L	Cynhyrchu a dosbarthu sticeri ceir yn cynnwys negeseuon (e.e. – diffoddwch y peiriant ar ôl parcio/aros, arafwch, cofiwch am ansawdd yr aer, cadwch yn ddigon pell o'r car o'ch blaen).				
M	Gwirio mapiau / gwefannau llwybrau i ymwelwyr i weld pa lwybrau sy'n cael eu hawgrymu (gan osgoi ARhAAoedd lle'n berthnasol)				
N	Adolygu amserau casgliadau biniau a glanhau ffyrdd.				
O	Ystyried goblygiadau gwneud trefi a phentrefi yn ddi-gerbyd.				
P	Sefydlu rhwydwaith cyfathrebu gyda chontractwyr cludo nwyddau i wella'r ffordd y darperir				

	gwasanaethau a chyfyngu'r effaith ar ansawdd yr aer.				
Q	Ystyried cynllun gwobrwyo ar gyfer pobl sydd prin yn defnyddio ceir neu ar gyfer y sawl sy'n cerdded / seiclo'n rheolaidd.				
R	Edrych ar y potensial o wneud bysiau / coetsis yn addas i ddefnyddio tanwydd nwy.				
S	Ystyried gwahardd cerbydau peiriant diesel.				
T	Gwella llwybrau cerdded.				

5.0 Adolygu a Monitro

5.1 Adolygu

Bydd y Grŵp Cynllun Gweithredu yn parhau'n weithgor gweithgar sy'n cydlynu a goruchwylio gweithredu gwahanol gynigion y Cynlluniau Gweithredu. Caiff y data a gasglwyd o'r gweithredu ei gofnodi a'i adolygu gan y Grŵp i weld pa fudd ddaeth o bob cynnig, yn ogystal ag i asesu a fu unrhyw effeithiau negyddol.

Mae'r Cynlluniau Gweithredu yn cael eu hystyried yn ddogfennau 'byw' sy'n debygol o gael eu newid gydag amser, sy'n golygu y dylid eu hadolygu'n rheolaidd. Y bwriad yw y caiff yr adolygiad ei gynnal yn rhan o'r gofynion adrodd blynyddol i Lywodraeth Cymru o dan broses RhAALl, sef yn flynyddol.

5.2 Monitro

Bydd defnyddio dadansoddydd awtomatig yn golygu y gellir defnyddio 'cyfnodau prawf' cyn bod rhai cynigion yn cael eu gweithredu'n llawn. Golyga hynny, pe bai cyfnod prawf ar gyfer cynnig penodol yn dangos effeithiau negyddol, y gellir addasu'r cynnig neu os oes angen ei ddileu cyn ei weithredu'n llawn. Mae sawl mantais i'r dull hwn o weithio, a bydd yn dangos a yw cynnig penodol yn debygol o weithio. Bydd yn gofalu hefyd fod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, ac nad yw'n cael ei wastraffu ar weithredu cynigion Cynllun Gweithredu yn llawn pan na fyddai hynny'n arwain at unrhyw welliant yn ansawdd yr aer.

Bydd ein rhwydwaith presennol i fonitro tiwbiau Tryledu Nitrogen Deuocsid yn cael ei gynnal gan y bydd yn ein galluogi i adnabod tueddiadau mwy hirdymor heb orfod cadw'r dadansoddydd awtomatig yn ei le am gyfnodau maith.